# Polisi Talu Credydwyr

## Datganiad a Phwrpas

1. Un o'n gwerthoedd ni fel sefydliad yw gofalu am ein gilydd a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Dyna pam ein bod am gynnal amgylchedd gwaith diogel a sicr i bob un ohonom fel staff a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

2. Amcan y Polisi Talu Credydwyr yw:

   Sicrhau bod taliadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu talu'n brydlon gan ddefnyddio gweithdrefnau a phrosesau talu effeithiol, teg ac effeithlon.

3. Nodau'r polisi yw:

   - Sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru a Pholisi Talu'n Brydlon Llywodraeth San Steffan.
   - Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r rheolau Caffael, sy'n sicrhau bod taliadau cyflenwyr yn cael eu paru ag archeb brynu ddilys.
   - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac unrhyw fersiynau dilynol.
   - Cymryd ymagwedd gadarnhaol tuag at dalu busnesau bach a chanolig (BbaCh) yn unol â'r Polisi Talu'n Brydlon.
   - Annog cyswllt cynnar â'r archebwr a/neu'r cyflenwr i ddatrys unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud ag anfonebau sy'n destun anghydfod er mwyn osgoi taliadau hwyr.

   Mae'r polisi hwn yn cwmpasu holl gyflenwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 4. Rheolaethau Mewnol

Mae gennym reolaethau mewnol wedi'u cofnodi ar ffurf nodiadau prosesau sy'n cwmpasu'r gweithgareddau canlynol:

- Prosesu anfonebau ag archebion prynu
- Prosesu anfonebau heb archebion prynu
- Prosesu anfonebau TAW yn unig
- Anfonebau pro-fforma

- ❖ Prosesu anfonebau Cynllun y Diwydiannau Adeiladu (CIS)
- ❖ Proses Ymholiadau am anfoneb
- ❖ Cysoni
    - Hunanfilio
    - Treuliau
    - Cytundebau Asiant Tir
    - Sieciau heb eu clirio
- ❖ Prosesau trefnu taliadau
    - Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth (GBS)
    - Taliadau CIS
    - Sieciau
    - Sieciau â Llaw
    - Taliadau Rhyngwladol
    - CHAPS
    - BACS
    - Debydau Uniongyrchol

# Cydymffurfiaeth

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw gyfnod talu yn fwy na 30 diwrnod calendr ar ôl derbyn anfonebau diddadl. Mae CNC yn dilyn yr ymrwymiad i dalu ei holl gyflenwyr cyn gynted â phosibl, yn unol â'r Cod Talu'n Brydlon. Mae ein targedau rheoli yn adlewyrchu'r cod Talu'n Brydlon lle mae 95% i 100% yn 'wyrdd', 90% i 95% yn 'oren' ac o dan 90% yn 'goch’. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod dulliau talu yn deg i bob credydwr.

6. Mae canllawiau Llywodraeth y DU hefyd yn cynnwys nod i dalu 90% o fusnesau bach a chanolig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn anfoneb ddiddadl ddilys. Ni fydd cyfyngiadau’r system bresennol yn caniatáu fflagio i olrhain BbaCh.

7. Mae CNC yn asesu symud tuag at darged o dalu'r holl anfonebau sydd wedi'u cyflwyno’n gywir o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ond bydd angen i ni ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.

8. Mae CNC yn cyflawni dau daliad i gyflenwyr yr wythnos, ac yn gwneud un taliad treuliau yr wythnos.

9. Ar gyfer mathau penodol o waith adeiladu, mae Rheoliadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu CThEF yn ei gwneud hi'n ofynnol i CNC ddidynnu treth o daliadau isgontractwyr ar y gyfradd briodol, o'r swm a gafodd ei hanfonebu. Yn achos yr isgontractwyr CIS hynny sy'n cael eu talu fel rhan o ddidyniad, rhaid i'r anfoneb ddangos y rhaniad llafur/deunyddiau. Rhaid gwirio isgontractwyr drwy CThEF a'u cofrestru ar y system Rheoli Ariannol.

10. Ar gyfer rhagdaliadau, mae CNC yn dilyn canllawiau'r llywodraeth yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae rhagdaliadau yn dderbyniol ar gyfer y gweithgareddau canlynol.

- Contractau gwasanaeth a chynnal a chadw sydd angen eu talu pan fydd y contract yn cychwyn, ar yr amod bod y gwasanaeth ar gael ac y gellir galw arno o'r dyddiad talu.
- Grantiau i gyrff gwirfoddol neu gymunedol bach lle mae angen cyfalaf gweithio ar y derbynnydd i gyflawni ymrwymiad y grant, a byddai cyllid o'r sector preifat yn lleihau gwerth am arian.
- Mân wasanaethau fel cyrsiau hyfforddi, archebion cynadledda, neu danysgrifiadau cylchgronau, lle mae disgresiwn lleol yn dderbyniol.
- Rhagdaliadau ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau, lle mae asesiad gwerth am arian yn dangos mantais glir talu'n gynnar.

Byddai angen dyfynbris gan y cyflenwr, yr archebwr, ar gyfer unrhyw rhagdaliad a byddai angen cymeradwyaeth lawn cyn prynu unrhyw beth. Am ragor o fanylion am ragdaliadau, gweler Rheoli ein harian

11. Dylid e-bostio pob anfoneb i'n Prif Swyddfa ganolog ar ffurf PDF i Payment.wales@naturalresourceswales.gov.uk a dyfynnu rhif archeb brynu dilys. Bydd anfonebau heb archebion prynu dilys yn cael eu dychwelyd at y cyflenwr.

12. Caiff anfonebau eu diweddaru i FyCNC gan staff Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol (TFS). Mae'r holl anfonebau sy'n cyfateb i archebion prynu ac wedi'u prosesu i'w talu yn cael eu cymeradwyo gan yr archebwr, a'u derbyn trwy lif gwaith. Rhaid i'r archebwyr sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau wedi'u derbyn fel y nodir yn yr anfoneb cyn eu cymeradwyo. Bydd anfonebau sy'n fwy na gwerth yr archeb yn cael eu huwchgyfeirio i reolwr y gyllideb i'w cymeradwyo.

13. Mae archebwyr yn gyfrifol am gysylltu â'r cyflenwr a datrys unrhyw faterion os nad ydynt yn fodlon â'r nwyddau/gwasanaethau a ddarparwyd.

14. O dan reoliadau TAW, mae'n ofynnol i CNC gael rhif cofrestru TAW y cyflenwyr a rhaid cyfeirio anfonebau i Cyfoeth Naturiol

15. Bydd taliadau ofer yn cael eu hadrodd i'r tîm Rheoli ein Harian (MoM) ac mae hynny'n golygu taliad na ddylem fod wedi'i wneud, neu lle gellid fod wedi canslo'r archeb ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau dan sylw mewn pryd i osgoi atebolrwydd.

16. Rydym yn cynnwys gwahanu dyletswyddau yn ein prosesau Talu Credydwr, sy'n cynnwys:

- Prosesu anfonebau **–** Bydd anfonebau / credydau Cyflenwr (Anfonebau Archebion Prynu (PO) yn cael eu gwirio, eu mynegeio, yna eu paru a'u cofrestru gan aelodau'r tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol ag archebion prynu dilys. Yna byddant yn cael eu cyflwyno trwy lif gwaith i'r archebwr neu'r rheolwr cyllideb i'w cymeradwyo, yn dibynnu ar werth yn unol â Rheoli ein Harian.

- Anfonebau heb archebion prynu – Bydd dogfennau ategol a manylion yn cael eu gwirio a'u cofrestru gan dîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol. Yna eu cyflwyno trwy lif gwaith i'r rheolwr cyllideb perthnasol i'w cymeradwyo (yn unol â Rheoli ein Harian).

- Taliadau tramor **-** Ar ôl derbyn anfoneb, caiff ei gwirio gan dîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol yn erbyn yr archeb brynu cyn anfon e-bost ar yr archebwr i gadarnhau bod y nwyddau/gwasanaethau wedi'u derbyn a bod y pris a godir yn gywir. (Arian cyfred tramor yn unig – GBP cyfwerth fel arfer). Bydd y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid yn llenwi ffurflen gais am daliad rhyngwladol a’r Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol yn ei gymeradwyo. Yna mae’r rhain yn cael eu hanfon at y tîm Cyllid Busnes er mwyn talu trwy gyfrwng Bankline (gyda'r naill berson yn mewnbynnu’r manylion a'r llall yn cymeradwyo). Bydd angen cymeradwyaeth llofnodwr y mandad banc hefyd. Ar ôl derbyn cadarnhad o’r taliad, bydd y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid yn diweddaru’r cyfriflyfr Cyfrifon sy’n Daladwy gyda'r cyfwerth sterling.

- Taliadau CHAPS **-** Bydd y Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol yn gwirio ac yn cofrestru'r anfoneb, cyn ei hanfon ymlaen trwy’r llif gwaith at yr archebwr i gael ei sêl bendith. Mae ffurflenni cais CHAPS yn cael eu llenwi gan Oruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid a'u hawdurdodi gan Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol. Mae angen sêl bendith y Tîm Arwain hefyd ac yna rhaid ei hanfon at y tîm Cyllid Busnes i wneud y trosglwyddiad trwy Bankline (wedi'i mewnbynnu a'i chymeradwyo gan ddau aelod gwahanol o'r tîm). Unwaith y bydd y taliad wedi'i wneud, anfonir cadarnhad at Oruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid a bydd y taliad yn cael ei ddiweddaru ar system ariannol FyCNC.

- Taliadau GBS **–** Bydd anfonebau'n cael eu gwirio a'u cofrestru gan dîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol a'u cymeradwyo gan archebwyr (gweler Anfonebau ag Archebion Prynu). Bydd y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid yn cynhyrchu adroddiadau ar y taliadau ac yn cwblhau ffurflen gais am Daliad GBS, a byddant yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol a FyCNC, neu gymeradwywr, yn unol â Rheoli ein Harian.

- Bydd ffurflen gais am Daliad GBS ac adroddiadau taliadau yn cael eu hanfon at dîm Cyllid Busnes (Dadansoddwr Cyfrifyddu Ariannol) er mwyn gwneud trosglwyddiad mewnol trwy Bankline (wedi'i fewnbynnu a'i gymeradwyo gan ddau aelod gwahanol o'r tîm). Anfonir cadarnhad o’r taliad at Oruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid er mwyn diweddaru’r taliadau ar system FyCNC.

- Taliadau Asiant Tir - Bydd y Tîm Asiant Tir yn llenwi ffurflen 'Taliadau Cyflenwyr Achlysurol' ar ôl cwblhau cytundeb rheoli, a bydd aelod o dîm y Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol yn gwirio'r manylion ac yn eu rhoi yn system FyCNC. Yna bydd

Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid neu Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol yn gwirio a chymeradwyo.

- Hunanfilio – Bydd y Tîm Cynaeafu yn anfon adroddiad at y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid i'w wirio, wedi'i gysoni yn erbyn y ffeil wreiddiol ar DMS. Cymeradwyaeth gan y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid i Weinyddiaeth Systemau lwytho'r ffeil i FyCNC. Gweinyddiaeth Systemau yn gwirio'r ffeil yn erbyn yr adroddiad ac yn cadarnhau bod y ffeil wedi'i llwytho. Bydd Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid yn gwirio'r balans ar FyCNC yn erbyn yr adroddiad. Mae'r adroddiadau yn cael eu cadw ar DMS at ddibenion archwilio.

- Taliadau - Y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid yn cynhyrchu adroddiadau taliadau, ac yn e-bostio copïau o unrhyw anfonebau sy'n fwy na £50K at Oruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol a FyCNC hyd at werth o £1m (yn unol â Rheoli ein Harian). Mae angen cymeradwyaeth y Tîm Arwain ar gyfer unrhyw daliadau dros £1m. Rhaid sganio'r adroddiad am unrhyw anghysondebau a gwirio TAW dros £50k. Gwirio'r balans ar adroddiadau yn erbyn gwerth ar SU11A. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth e-bost, anfonir y ffeil at ein darparwr BACS i drosglwyddo'r taliad. Pan dderbynnir cadarnhad bod y taliadau wedi'u gwneud, bydd y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid wedyn yn diweddaru FyCNC. Yna, bydd copi o'r cadarnhad BACS yn cael ei anfon at Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol ac at aelod o'r Tîm Arwain/FyCNC i wirio'r balans terfynol. Mae'r holl adroddiadau yn cael eu cadw ar DMS at ddibenion archwilio.

- Mandadau Debyd Uniongyrchol - Wedi'u sefydlu gan Gyllid Busnes (Dadansoddwr Cyfrifyddu Ariannol) a'u cymeradwyo gan Lofnodwr y Banc. Bydd y taliadau misol yn cael eu diweddaru gan y Goruchwylydd Gwasanaethau Taliadau Cyllid at ddefnydd Cyllid Busnes yn unig.

# Cwmpas

17. Mae'r polisi hwn yn effeithio ar y Gwasanaethau Cyllid a Chyllid Trafodiadol, Caffael, gwasanaethau cymorth Caffael ac unrhyw un sy'n codi archebion ym mhob rhan o CNC.

# Egwyddorion Allweddol

*18.* Y deddfwriaethau amrywiol sy'n ymwneud â sut rydym yn rheoli taliadau Credydwyr yw Rheoli ein Harian, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, rheolau'r Trysorlys, cyfraith a rheolau trethiant Cyllid a Thollau EF, Cod Ymarfer 'Talu Gwell', Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

# Rolau a Chyfrifoldebau

19. Mae'r cwmpas yn cynnwys pwy mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt ac mae'r adran Cydymffurfiaeth yn amlinellu'r rolau yn fanylach.

Arweinydd tîm cyllid trafodiadol sy'n gyfrifol am y polisi. Bydd y polisi'n cael ei wirio bob 2 flynedd.

Rhaid i archebwyr sy'n gwirio ac yn cymeradwyo nwyddau a gwasanaethau sicrhau bod nwyddau/gwasanaethau wedi'u derbyn cyn cymeradwyo anfonebau a'u bod yn cysylltu â'r cyflenwr yn brydlon os nad ydynt yn fodlon neu os oes unrhyw anghysondebau pris ar yr anfoneb.

# Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

20. Mae'r canlynol yn berthnasol i'r polisi hwn:

- Rheoli ein Harian Yma
- Caffael Yma

# Ffynonellau gwybodaeth eraill

21. Mae'r canlynol yn berthnasol i'r polisi hwn:

- Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Yma
- Rheolau'r Trysorlys Yma
- Polisi Talu'n Brydlon Llywodraeth San Steffan Yma
- Cynllun y Diwydiant Adeiladu Yma

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

22. Rydym wedi ymrwymo i ddiwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ein nod yw sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail ei oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd, cred neu ddiffyg cred.

Ni chynhyrchwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Polisi hwn.

# Cyswllt

23. Mae'r polisi a'r weithdrefn gysylltiedig hon yn eiddo i'r canlynol - Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cyllid Trafodiadol.

Wedi'i ddatblygu a'i gytuno mewn partneriaeth â - Pennaeth Cyllid y Tîm Arwain.

# Cymeradwyaeth

Bydd y polisi hwn yn berthnasol fel polisi swyddogaethol ac fe'i hystyrir yn gydymffurfiaeth.

(Am ragor o fanylion am y diffiniadau hyn, y categorïau o bolisïau a goblygiadau diffyg cydymffurfio, gweler yr Atodlen Awdurdod Dirprwyedig).

Cynhyrchwyd gan Sharon Flynn, Cyllid Trafodiadol ac Arweinydd Tîm Gwasanaethau FyCNC

Rob Bell, Pennaeth Cyllid

# Fersiwn 2

Cyhoeddwyd gyntaf 12/09/22.

Adolygwyd 05/01/2024

I'w adolygu gyntaf ymhen 12 mis ac yna bob dwy flynedd. Bydd diwygiadau'n cael eu gwneud yn gynt pan fydd newid perthnasol mewn deddfwriaeth neu ofynion busnes ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Undebau Llafur cynrychioliadol.